

“Er cof amdanaf”

“Cymerodd fara, ac wedi diolch fe'i torrodd a'i roi iddynt gan ddweud, 'Hwn yw fy nghorff, sy'n cael ei roi er eich mwyn chwi; gwnewch hyn er cof amdanaf.'”
(adn. 19)

Beth am ddarllen Luc 22:17–23 ac yna myfyrio

Mae cyfarwyddiadau Iesu i'w ddisgyblion ar gyfer parhad yr hyn a alwn yn Swper yr Arglwydd yn eglur ac yn syml. “Gwnewch hyn er cof amdanaf.” Y tu ôl i'r gorchymyn yma mae hanes iachawdwriaeth Israel, sy'n cael ei goffáu yng Ngwledd y Pasg. Wrth gadw'r wledd goffa hon, roedd Israel yn coffáu gweithred achubol Duw yn dod â hi allan o'r Aifft. P'un ai a oedd Iesu a'i ddisgyblion yn bwyta ar yr Ŵyl neu ar ei noswyl, mae naws Gŵyl y Pasg yno'n amlwg. Roedd Iesu'n gwneud rhywbeth radicalaidd iawn: roedd yn ailysgrifennu Gwledd y Pasg, gan newid y canolbwynt o'r exodus cyntaf o'r Aifft i exodus newydd oddi wrth bechod a marwolaeth yr oedd ar fin ei gyflawni.

Yn y cyd-destun yma, nid rhyw hiraeth ydy'r ‘cofio’ – does dim disgwyl i ni geisio ein dychmygu ein hunain yn yr oruwchystafell. Pan fyddwn yn dathlu'r Cymun Bendigaid mi ddylen ni, gyda chymorth yr Ysbryd Glân, ganolbwyntio ar Iesu fel yr Un a fu farw drosom ac a atgyfododd yn Arglwydd a fydd gyda ni bob amser. Does dim disgwyl i ni geisio dychmygu lle'r oedd y disgyblion wedi'u gosod o amgylch y bwrdd na lle'r oedd Iesu'n eistedd. Gall peintiadau a lluniau fod o gymorth i'n dychmyg, ond nid ar hynny ddylen ni fod yn canolbwyntio wrth ddathlu'r cymun. Rydyn ni i'w gofio ef – yr Un a gyflawnodd exodus llawer iawn mwy ar ein cyfer ni nag exodus plant Israel allan o'r Aifft.

Wrth gymryd, torri, rhannu, bwyta ac yfed, mae Iesu'n cael ei gofio oherwydd pwy yw ac am beth wnaeth. Mae'r pryd syml hwn yn ein hatgoffa bod yr Un a fu farw bellach yn odidog o fyw ac yn bresennol bob amser.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Deut. 16:1–12; 1 Cor. 5:6–8; 11:23–26; 2 Tim. 2:8; Dat. 1:4–8, 17–18

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Am beth roedd Israel i gofio wrth ddathlu ei gwleddoedd?
2. Sut mae'r apostol Ioan yn cysylltu marwolaeth Iesu â'i atgyfodiad?

Gweddi

Arglwydd Iesu, helpa fi i ddeall hyn yn iawn. Dylwn dy gofio di, nid fel y buost ti'n eistedd wrth fwrdd yn yr oruwchystafell, ond fel yr Un a gyflawnodd exodus rwyf fi'n cyfrannu ohono'n ddiolchgar. Diolch i ti am f'achubiaeth. Bendigedig fyddo d'enw bythoedd. Amen.